

Tribiwnlys Adolygu
Iechyd Meddwl Cymru

Mental Health Review
Tribunal for Wales

Canllaw Atgyfeirio

Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru
Llawr 2, Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 5328
Ffacs: 0300 025 7331
E-bost: mhrt@wales.gsi.gov.uk

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am:

- Tudalen 1 [Beth yw atgyfeiriadau?](#)
- Tudalen 1 [Beth sy'n digwydd pan fydd atgyfeiriad yn cael ei wneud?](#)
- Tudalen 1 [A allaf fi ddal i wneud cais os gwneir atgyfeiriad?](#)
- Tudalen 2 [Pa bryd fydd atgyfeiriadau'n cael eu gwneud?](#)
- Tudalen 3 [Pa bryd fydd gwrandawriad fy atgyfeiriad yn cael ei gynnal?](#)

Beth yw atgyfeiriadau?

Mewn rhai amgylchiadau mae dyletswydd gyfreithiol ar yr awdurdod sy'n gyfrifol am eich cadw mewn ysbyty meddwl / Gorchymyn (a elwir yn Awdurdod Cyfrifol) neu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i wneud atgyfeiriad i'r Tribiwnlys. Mae hyn yn digwydd yn aml am eich bod wedi'ch cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl am gyfnod hir a heb wneud cais i'r Tribiwnlys eich hun. Rhaid i'r Tribiwnlys wedyn benderfynu a yw'r penderfyniad i'ch cadw neu'r Gorchymyn rydych yn destun iddo yn dal yn briodol. Bydd gwrandawriad yn cael ei gynnal yn yr un ffordd â phe baech wedi gwneud y cais eich hun. Fodd bynnag, ni allwch dynnu atgyfeiriad yn ôl. Bydd y gwrandawriad yn mynd yn ei flaen oni bai bod eich meddyg yn diddymu'r penderfyniad i'ch cadw neu'r Gorchymyn.

Mewn achosion eithriadol, gall Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd wneud atgyfeiriad i'r Tribiwnlys.

Nid oes yn rhaid i chi fynd i wrandawriad y Tribiwnlys os yw'n well gennych beidio. Mae gennych hawl i gael cynrychiolaeth gyfreithiol os ydych yn dymuno. Gall cynrychiolydd cyfreithiol gyflwyno eich safbwynt chi gerbron panel y Tribiwnlys boed chi yn y gwrandawriad neu beidio. Mae rhestr o gyfreithwyr iechyd meddwl arbenigol ar dudalen Ceisiadau'r wefan hon, neu gofynnwch i'ch eiriolydd (IMHA), staff y ward, Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl, cydlynedd gofal neu weithiwr cymdeithasol am gopi o'r rhestr.

Beth sy'n digwydd pan fydd atgyfeiriad yn cael ei wneud?

Bydd yr awdurdod atgyfeirio yn ysgrifennu at swyddfa'r Tribiwnlys i wneud yr atgyfeiriad. Bydd swyddfa'r Tribiwnlys wedyn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi bod atgyfeiriad wedi'i wneud. Ychydig yn ddiweddarach, byddwch chi neu eich cynrychiolydd cyfreithiol yn cael gwybod beth fydd dyddiad y gwrandawriad.

Yn fuan cyn y gwrandawriad bydd aelod Meddygol y Tribiwnlys yn gofyn am eich gweld ar gyfer archwiliad rhagarweiniol. Mae hyn yn golygu y bydd aelod Meddygol y Tribiwnlys yn eich cyfweld ynghylch eich cyflwr meddyliol a bydd hynny'n cael ei ddatgelu i aelodau eraill y Tribiwnlys cyn y gwrandawriad.

A allaf fi ddal i wneud cais i'r Tribiwnlys os gwneir atgyfeiriad?

Nid yw atgyfeiriadau yn effeithio ar eich hawl i wneud cais i'r Tribiwnlys. Gweler ein Canllaw ar wneud cais i wybod sut a pha bryd i wneud hynny. Efallai yr hoffech gael cyngor cyfreithiol ar wneud cais os ydych chi'n credu ei bod yn amser am atgyfeiriad.

Pa bryd fydd atgyfeiriadau'n cael eu gwneud?

Bydd pa bryd y gwneir atgyfeiriad yn dibynnu ar ba Adran o'r Ddeddf Iechyd Meddwl neu Orchymyn rydych chi'n destun iddo, ac ers pa bryd. Gall eich cynrychiolydd cyfreithiol neu Weinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl ddweud wrthy'ch ba bryd y bydd yn amser am atgyfeiriad. Mae ein gwefan yn cynnwys Tabl Cymhwysedd cynhwysfawr sy'n dangos pa bryd y bydd yn amser am atgyfeiriad. Rhoddir amlinelliad byr isod o ba bryd y gallwch ddisgwyl atgyfeiriad ar gyfer rhai o'r mathau mwyaf cyffredin o gaethiwed o dan Adrannau'r Ddeddf neu Orchymynion.

Adran 2

Nid oes dyletswydd ar yr Awdurdod Cyfrifol i wneud atgyfeiriad yn achos pobl sy'n cael eu cadw o dan Adran 2. Gallwch wneud cais i'r Tribiwnlys o fewn 14 diwrnod cyntaf eich cadw.

Adrannau 3 a 17a (a elwir hefyd yn Orchymyn Triniaeth Gymunedol)

- Os nad ydych chi wedi gwneud cais am wrandawriad o fewn y chwe mis cyntaf o gael eich cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, mae dyletswydd ar yr Awdurdod Cyfrifol i wneud atgyfeiriad;
- O hynny ymlaen, os byddwch yn dal i gael eich cadw neu'n destun Gorchymyn, gall yr Awdurdod Cyfrifol wneud atgyfeiriad pob tair blynedd ar ôl dyddiad eich gwrandawriad diwethaf. Os ydych chi o dan 18 oed, byddwch yn cael eich atgyfeirio bob blwyddyn ers eich gwrandawriad diwethaf;
- Os ydych chi wedi eich cadw o dan Adran 17a, a elwir hefyd yn Orchymyn Triniaeth Gymunedol neu CTO, a bod eich CTO yn cael ei ddirymu, mae dyletswydd ar yr Awdurdod Cyfrifol i wneud atgyfeiriad cyn gynted â phosibl ar ôl y dirymiad;

Adran 37

- Os nad ydych chi wedi gwneud cais i'r Tribiwnlys a'ch bod wedi cael gwrandawriad o fewn 3 blynedd gyntaf eich cadw o dan y Ddeddf, mae dyletswydd ar yr Awdurdod Cyfrifol i wneud atgyfeiriad;
- Os ydych yn parhau'n i gael eich cadw neu eich bod yn destun Gorchymyn, bydd yr Awdurdod Cyfrifol wedyn yn gwneud atgyfeiriad pob tair blynedd ar ôl dyddiad eich gwrandawriad diwethaf. Os ydych chi o dan 18 oed, bydd atgyfeiriad yn cael ei wneud bob blwyddyn ers dyddiad eich gwrandawriad diwethaf.

Adran 37/41

Gall y Weinyddiaeth Cyfiawnder wneud atgyfeiriad ar unrhyw adeg, ond mae dyletswydd arni i wneud atgyfeiriad pob tair blynedd ers eich Tribiwnlys diwethaf. Mae dyletswydd arni hefyd i wneud atgyfeiriad i'r Tribiwnlys o fewn mis ar ôl i glaf gael ei alw'n ôl i ysbyty ar ôl rhyddhad amodol.

Adran 41

Gall y Weinyddiaeth Cyfiawnder wneud atgyfeiriad ar unrhyw adeg, ond nid oes dyletswydd arni i wneud hynny. Os cewch eich galw'n ôl i ysbyty bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gwneud atgyfeiriad o fewn mis i'r dyddiad pan gawsoch eich galw'n ôl.

Pa bryd fydd gwrandawriad fy atgyfeiriad yn cael ei gynnal?

- Pob Adran heb gyfyngiad (e.e. Adran 3, 37, 17a a Gwarcheidiaeth): os yn bosibl, bydd eich gwrandawriad o fewn 8 wythnos i'r dyddiad pan gafodd swyddfa'r Tribiwnlys yr atgyfeiriad;
- Adrannau sy'n cynnwys gorchymyn cyfyngu (e.e. Adran 37/41, 41/49): os yn bosibl, bydd eich gwrandawriad o fewn 14 wythnos i'r dyddiad pan gafodd swyddfa'r Tribiwnlys yr atgyfeiriad;
- Rhyddhad amodol (Adran 41), a galw'n ôl i ysbyty: bydd eich gwrandawriad rhwng 5 ac 8 wythnos i'r dyddiad pan gafodd swyddfa'r Tribiwnlys yr atgyfeiriad.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.